CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn
(Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2007 (OS
2007/702 (W.59)

Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Bwrdeistref Sirol Conwy) 2012

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy , drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

1
Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **1af Chwefror 2012**

2
Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i'r tir a bennir yn Atodlen 1.

Y Drosedd

3
(1) Bydd unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros gi yn euog o drosedd ar yr amserau a bennir yn Atodlen 2 os bydd yr unigolyn hwnnw yn mynd â'r ci ar unrhyw dir y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo, neu yn caniatáu iddo fynd arno neu aros arno oni bai-

(a) bod gan yr unigolyn hwnnw esgus rhesymol dros wneud hynny; neu

(b) bod perchennog y tir, meddiannydd y tir neu unigolyn neu awdurdod arall sydd â rheolaeth dros y tir wedi cydsynio (yn gyffredinol neu'n benodol) i'r unigolyn hwnnw wneud hynny.

(2) Nid oes dim yn yr erthygl hon yn gymwys i unigolyn -

(a) sydd wedi'i gofrestru fel unigolyn dall mewn cofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) sydd yn fyddar, mewn perthynas â chi wedi'i hyfforddi gan Hearing Dogs for Deaf People (elusen gofrestredig rhif 293358) ac y mae'r unigolyn hwnnw yn dibynnu arno am gymorth; neu

(c) sydd ag anabledd sy'n effeithio ar ei symudedd, ei law deheurwydd, ei gydsymud corfforol neu ei allu i godi, i gario neu i symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi wedi ei hyfforddi gan elusen ragnodedig ac y mae'r unigolyn hwnnw yn dibynnu arno am gymorth.

(3) At ddibenion yr erthygl hon -

(a) cymerir bod unigolyn y mae ci fel rheol yn ei feddiant â chyfrifoldeb dros y ci hwnnw ar unrhyw adeg oni bai fod rhyw unigolyn arall yn gyfrifol am y ci hwnnw ar yr adeg honno; a

(b) mae pob un o'r canlynol yn "elusen a ragnodwyd"-

(i) Dogs for the Disabled (elusen gofrestredig rhif 700454);

(ii) Support Dogs (elusen gofrestredig rhif 1088281);

(iii) Canine Partners for Independence (elusen gofrestredig rhif 803680).

Y Gosb

4
Bydd unigolyn sy'n euog o drosedd dan erthygl 3 yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

RHODDWYD dan fy llofnod

Cynghorydd Philip C. Evans
Deiliad Portffolio
Aelod Cabinet Llywodraethu a Rheoleiddio

ATODLEN

ATODLEN 1

Tir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo:

1. Mae'r holl dir sydd wedi'i ddisgrifio yn yr atodlen hon yn dir sydd o fewn ardal weinyddol y Cyngor

(i) sy'n dir agored i'r awyr (sy'n cynnwys unrhyw dir dan do os yw'n agored i'r awyr ar o leiaf un ochr); ac

(ii) Tir y mae gan y cyhoedd hawl neu ganiatâd i gael mynediad iddo (gyda neu heb daliad); ac

(iii) sydd wedi'i arwyddo wrth ei fynedfa/mynedfeydd fel "Ardal Eithrio Cŵn"
(os yw'r arwydd yn defnyddio'r geiriau penodol hynny neu eiriau ac/neu symbolau gyda'r un effaith)

A:

2. Pob Lle Chwarae Plant gyda Ffens o'i amgylch

3. Pob Llecyn Chwarae Aml-ddefydd

4. Pob Cwrt Tennis

5. Pob Parc Sglefrio

6. Pob Grin Bowls

7. Pob Maes Hamdden sy'n gysylltiedig â Sefydliadau Addysgol

8. Ardal Chwarae Pob Maes Chwaraeon a Farciwyd, a

9. Cae Chwarae Betws-yn-Rhos, Betws-yn-Rhos

10. Caeau Chwarae Capel Garmon, Capel Garmon

11. Cae Pêl-droed Cae Ffwt, Glan Conwy

12. Caeau Chwarae Gyffin, Gyffin

13. Ardal Hamdden Ffordd Gower, Trefriw

14. Traethau gan gynnwys glan y môr, y blaendraeth ac unrhyw lethr neu risiau sy'n arwain at y traethau fel ym mhwynt i – vii isod

i. Llandrillo-yn-Rhos – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng Rhos Point a diwedd Promenâd Cayley
ii. Bae Golwyn – yr ardal o draeth rhwng Pier Victoria a mynedfa'r promenâd i Barc Eirias.
iii. Pensarn – yr ardal o draeth rhwng y marc llanw isel a therfyn y blaendraeth rhwng y polion pren a fewnosodwyd yn gyfagos i adeilad y caffi a'r polion concrid a fewnosodwyd ar ben eithaf gorllewinol y promenâd.
iv. Bae Cinmel – y darn o draeth rhwng y marc llanw isel a therfyn y blaendraeth rhwng pwynt yn yr un llinell â Dinas Avenue, Bae Cinmel a man yn yr un llinell â Ffordd y Twyni, Tywyn.
v. Traeth y Gogledd Llandudno – y darn o draeth sy'n ymestyn o Bier Llandudno i Clarence Road rhwng ffedog y Promenâd a'r marc dŵr isel pan fod y llanw yn un canolig
vi. Pen Morfa Llandudno – y darn o draeth sy'n ymestyn rhwng y ddau grwyn cerrig o ffedog y promenâd ac ochr atfor y grwynau a gyfeiriwyd atynt
vii. Penmaenmawr - y darn o draeth rhwng ochr ddwyreiniol y caffi sydd wedi'i leoli ar y promenâd a'r llithrfa sy'n gysylltiedig â'r clwb hwylio, Penmaenmawr ond ddim yn cynnwys unrhyw ran o'r Promenâd
viii. Rhos Point, Llandrillo Yn Rhos - Y darn bach o draeth tywodlyd heb ei olchi gan y llanw

ATODLEN 2

1. Amseroedd pan fydd y Drosedd yn berthnasol:

Bydd pwyntiau 1 i 13 Atodlen 1 y Gorchymyn Hwn yn berthnasol bob amser

Bydd pwynt 14 (i - vii) y Gorchymyn Hwn ond yn berthnasol rhwng 1 Mai a 30 Medi, gan gynnwys y dyddiadau hynny, mewn unrhyw flwyddyn

Bydd pwyntiau 14 (viii) y Gorchymyn Hwn yn berthnasol bob amser